# Withdrawn

This publication is withdrawn.
The publication is no longer current.

# Cymorth i drefnu cynhaliaeth plant

Help a sut i gael gwybod mwy

Cynhaliaeth Plant
opsiynau

# Rhowch drefn ar eich cynhaliaeth plant

Cysylltwch gyda'r gwasanaeth Opsiynau Cynhaliaeth Plant heddiw, er mwyn cael cymorth a gwybodaeth ddiduedd yn rhad ac am ddim.

Ar-lein
**www.cmoptions.org/cymorth**

Ffôn
**0800 988 0988**

(gallwch ofyn am gael siarad yn Gymraeg)

Dydd Llun i ddydd Gwener 8am i 8pm,
dydd Sadwrn 9am i 4pm.

# Cynllunio ymlaen llaw

Os ydych yn magu plentyn a bod ganddynt riant sydd ddim yn byw gyda nhw, gall rhoi trefniadau cynhaliaeth plant ar waith wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau'r plant.

## Beth ydy cynhaliaeth plant?

Mae cynhaliaeth plant yn daliad rheolaidd y gellir dibynnu arno i helpu tuag at gostau byw plant o ddydd i ddydd. Fel arfer, bydd y rhiant sydd ddim yn gofalu am y plentyn bob dydd yn talu cynhaliaeth plant i'r rhiant arall.

Gallwch drefnu'r taliadau yma mewn sawl ffordd, ac mae'n bwysig dewis yr opsiwn gorau ar gyfer eich sefyllfa chi.

## Pam fod cynhaliaeth plant yn bwysig?

Gall cynhaliaeth plant wneud gwahaniaeth sylweddol i les plant, gan helpu i gynnig mwy o ddewis a chyfleoedd iddynt yn eu bywydau. Hefyd, mae gan rieni ddyletswydd gyfreithiol i gynnal eu plant yr ariannol, hyd yn oed os nad ydynt yn byw gyda nhw.

## Sut mae cynhaliaeth plant yn effeithio ar fudd-daliadau?

Mae effaith cynhaliaeth plant ar fudd-daliadau wedi newid. Yn y gorffennol, roedd yn rhaid i rieni ar fudd-daliadau oedd yn gofalu am eu plant bob dydd wneud cais drwy'r Asiantaeth Cynnal Plant, a byddai unrhyw gynhaliaeth plant roeddent yn ei gael yn lleihau eu budd-daliadau.

Ond erbyn hyn, gallwch chi ddewis sut byddwch am drefnu cynhaliaeth plant hyd yn oed os ydych ar fudd-daliadau. Yn ogystal, ni fydd unrhyw gynhaliaeth plant a gewch yn effeithio ar eich budd-daliadau sy'n ymwneud ag incwm, felly gallech fod yn well eich byd o ganlyniad.

## Beth yw fy opsiynau cynhaliaeth plant?

Gallwch drefnu cynhaliaeth plant mewn un o dair ffordd:

**Gwneud cytundeb preifat**

Os credwch y gallwch wneud trefniadau cynhaliaeth plant rhwng eich gilydd, gallech wneud cytundeb preifat. Mae'n gyflym ac yn hwylus i'w drefnu, a gall fod yn fwy hyblyg gan nad oes unrhyw reolau pendant.

Serch hynny, ni fydd y cytundeb yn gyfreithiol rhwym fel arfer, a gallai beidio â llwyddo os oes un o'r rhieni yn anonest am y sefyllfa.

**Defnyddio'r Asiantaeth Cynnal Plant**

Yr Asiantaeth Cynnal Plant ydy gwasanaeth cynhaliaeth plant y llywodraeth. Gallwch ofyn iddynt weithio allan cynhaliaeth plant ar eich cyfer, a gallant gasglu a gorfodi taliadau ar eich rhan hefyd. Nid oes raid i chi gael cysylltiad gyda'r rhiant arall na hyd yn oed wybod ble maent yn byw.

**Defnyddio'r llysoedd**

Yng Nghymru a Lloegr, gallwch gael Gorchymyn Cydsynio sy'n ddyfarniad swyddogol a wneir gan y llysoedd, caiff ei ddefnyddio fel arfer pan fo rhieni yn penderfynu ar setliad ysgariad. Bydd y ddau riant yn gweithio gyda chyfreithwyr er mwyn cytuno ar faint o gynhaliaeth plant ddylai gael ei dalu. Mae'n gyfreithiol rhwym a gall fod yn ddrud oherwydd y costau cyfreithiol.

Yn yr Alban, gallwch wneud cytundeb preifat yn gontract a elwir yn 'Minute of Agreement'. Gellir cofrestru hwn i'w wneud yn gyfreithiol rhwym.

## Help a gwybodaeth

Mae mwy o wybodaeth am yr opsiynau yma ar gael drwy'r gwasanaeth cymorth a gwybodaeth Opsiynau Cynhaliaeth Plant, sy'n rhad ac am ddim.

Mae Opsiynau Cynhaliaeth Plant yn gwbl ddiduedd ac ar gael i unrhyw un sydd am gael gwybod mwy am gynhaliaeth plant, gan gynnwys eich teulu a ffrindiau.

## Gall y gwasanaeth am ddim eich helpu gyda:

- deall yr opsiynau ar gyfer gwneud trefniadau cynhaliaeth plant os nad oes gennych rai yn barod
- delio gyda materion eraill yn ymwneud â chynhaliaeth plant, fel eich cartref, gwaith, materion ariannol a'ch lles emosiynol
- cysylltu gyda mudiadau defnyddiol eraill i gael cyngor arbenigol.

Er mwyn gwneud y dewisiadau iawn am gynhaliaeth plant ar gyfer eich plentyn, ewch i'r wefan Opsiynau Cynhaliaeth Plant am gymorth, taflenni a gwybodaeth, neu ffoniwch y tîm Opsiynau Cynhaliaeth Plant i drafod eich sefyllfa.

Ar-lein
**www.cmoptions.org/cymorth**

Ffôn
**0800 988 0988**

## Ffonau testun

Os oes gennych ffôn testun am na allwch siarad neu glywed yn glîr, mae rhifau gwahanol ar gyfer pob gwasanaeth a restrir yn y daflen hon. Nid yw'r rhifau hyn yn derbyn galwadau llais na negeseuon testun o ffonau symudol.

Ffôn testun
**0800 988 9888**

## Cost galwadau

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly holwch eich darparwr gwasanaeth am gost galwadau. Roedd y prisiau'n gywir ar y dyddiad isod.

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu'r holl amgylchiadau a all godi. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y daflen yn gywir ar y dyddiad isod. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith. Rydym yn argymell eich bod yn cael cyngor annibynnol cyn gwneud penderfyniadau ariannol ar sail y daflen hon.

(h) Hawlfraint y Goron
ISBN 978-1-84947-368-2
**DWP007W** | f1.0 (Tachwedd 2010) | v1.0 (November 2010)